# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Fideo Gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 26 Tachwedd 2020

Amser: 13.30 - 17.00

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6526

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mike Hedges AS (Cadeirydd)<br>Janet Finch-Saunders AS<br>Llyr Gruffydd AS<br>Neil Hamilton AS<br>Jenny Rathbone AS<br>Joyce Watson AS |
| Tystion: | Jim Evans, Cymdeithas Pysgotwyr Cymru<br>Nick Fenwick, Undeb Amaethwyr Cymru<br>Huw Thomas, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru<br>Jemma Bere, Cadwch Gymru'n Daclus<br>Michele Hunt, RSPB Cymru<br>Alexander Phillips, WWF Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Marc Wyn Jones (Clerc)<br>Elizabeth Wilkinson (Ail Glerc)<br>Andrea Storer (Dirprwy Glerc)<br>Katy Orford (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig.

1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, cafwyd datganiad gan y Cadeirydd ei bod wedi penderfynu y dylid gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor i ddiogelu iechyd y cyhoedd.

1.3 Os byddai unrhyw broblemau technegol yn codi yn ystod y cyfarfod, gan olygu y byddai ei gyswllt band eang yn cael ei dorri, nododd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno y byddai Jenny Rathbone AS yn cymryd ei lle fel Cadeirydd Dros Dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

## 2 Covid-19 a threfniadau pontio'r Undeb Ewropeaidd: Sesiwn dystiolaeth 1 - Y sector pysgodfeydd

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gymdeithas Pysgotwyr Cymru.

## 3 Covid-19 a threfniadau pontio'r Undeb Ewropeaidd: sesiwn dystiolaeth 2 - Y sector amaethyddol

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Undeb Amaethwyr Cymru ac Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru.

## 4 Covid-19 a threfniadau pontio'r Undeb Ewropeaidd: sesiwn dystiolaeth 3 - Y sector amgylcheddol

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Cadwch Cymru’n Daclus, Cronfa Natur Fyd-eang (WWF) Cymru, ac Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) Cymru.

## 5 Papurau i'w nodi

5.1 Cafodd y papurau eu nodi.

5.1 Gohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig mewn perthynas â Bil Pysgodfeydd y DU

5.2 Ymateb gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol i'r llythyr gan y Cadeirydd mewn perthynas â'r Fframwaith Sylweddau Peryglus Drafft.

5.3 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol mewn perthynas â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

5.4 Gohebiaeth gan y Llywydd at y Cadeirydd ynghylch llywodraethu ac egwyddorion amgylcheddol

5.5 Llythyr gan Gadeirydd Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â Rheoliadau Cynhyrchion Amaethyddol, Bwyd a Diod (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Covid-19 a threfniadau pontio'r Undeb Ewropeaidd - Trafod y dystiolaeth a daeth i law o dan eitemau 2, 3 a 4

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn ystod eitemau 2, 3 and 4.

## 8 Trafod adroddiad drafft y Pwyllgor ar ymateb Llywodraeth Cymru i lifogydd Chwefror 2020 yng Nghymru

8.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft, ac yn amodol ar fân newidiadau, cytunodd arno.